

EISTEDDFOD



Croeso i'r Cylchlythyr

Welcome to our Newsletter



Croeso i'r rhifyn cyntaf o gylchlythyr prosiect cymunedol Eisteddfod Rhondda Cynon Taf. Byddwn yn cyhoeddi rhifyn bob mis a hanner er mwyn rhannu newyddion am ein prosiect a'r paratodau ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf.

Welcome to the first edition of the Rhondda Cynon Taf Eisteddfod community project newsletter. We'll be publishing an edition every month and a half with



Rydyn ni'n chwilio am swyddogion ar gyfer ein Pwyllgor Gwaith. Mae'r manylion i gyd [yma](#), a gallwch enwebu eich hun neu rywun arall fel [Cadeirydd](#), [Is-gadeirydd](#) neu [Ysgrifennydd](#) neu [Gadeirydd y Gronfa Leol](#). Dyddiad cau - 23 Tachwedd.

We're looking for a [Chair](#), [Deputy-chair](#) and [Secretary](#) for our Executive Committee and the [Chair of the Local Fund Committee](#). Find out more [here](#).

Closing date 23 November.

[Subscribe](#)
[Past Issues](#)
[Translate ▼](#)


Rydyn ni wedi creu Fforwm Cymunedol a Grŵp Llywio yn yr ardal. Mae'r Fforwm yn cynnwys grwpiau a sefydliadau sy'n gweithio'n lleol ac yn gyfle i drafod sut y gallwn ni gydweithio i gyrraedd cymunedau ar draws y sir. Mae'r Grŵp Llywio wedi cyfarfod unwaith ac am fod yn edrych yn fwy penodol ar brosiect yr ŵyl. Eisiau ymuno? Anfonwch [ebost](#).

We've set up a Community Forum and Steering Group. The Forum includes local organisations and discusses how we can reach different groups in the area. The Steering Group has met once so far and looks at the festival project itself. Want to join? Send us an [email](#).



Heb lwyddo i gael lle ar ein taith yn Aberdâr? Rydyn ni'n mynd ar grwydr eto, o amgylch Pontypridd y tro 'ma. Ymunwch â Siôn Tomos Owen am 12:00 ddydd Sul 4 Rhagfyr am daith hamddenol a hanesyddol, gyda chyfle i flasw cwrw lleol yng Nghlwb y Bont ar y diwedd. Archebwch eich lle [yma](#).

Missed out on our walk around Aberdare? We're on the move again as we explore the history of Pontypridd with Siôn Tomos Owen at 12:00 on Sunday 4 December, with a chance to sample some local beer in Clwb y Bont at the end. Click [here](#) to register.



Cadwch y dyddiadau'n rhydd! Fe fyddwn ni'n dathlu mai 500 diwrnod yn unig sydd i fynd tan yr Eisteddfod o 23-25 Mawrth. Ac rydyn ni angen eich help. Felly, os oes gennych chi syniadau ar sut y gallwn ni ddathlu, gadewch i ni wybod. Byddwn yn trafod sut mae pawb am ddathlu yn y Fforwm a'r Grŵp Llywio, neu anfonwch [ebost](#).

Keep the dates free! We'll be celebrating that there's 500 days to go until the Eisteddfod from 23-25 March. And we need your help! So if you've got ideas on how we can celebrate, let us know, come to a Forum or Steering Group meeting or send us an [email](#).



Rydyn ni newydd lansio apêl i chwilio am ferched dawnys flodau Eisteddfod Aberdâr 1956. Byddai'r merched wedi bod rhwng 8-10 oed ac wedi cymryd rhan yn seremonïau'r Orsedd yn ystod wythnos yr ŵyl 66 o flynyddoedd yn ôl. Cysylltwch os ydych chi'n adnabod unrhyw un o'r merched. Rhagor [yma](#).

We've just launched an appeal to find the flower girls from the 1956 Eisteddfod in Aberdare. The girls would have been aged 8-10 and took part in the Gorsedd ceremonies during festival week 66 years ago. Get in touch if you know the girls! More information [here](#).

[Subscribe](#)[Past Issues](#)[Translate](#) ▼

Daeth tua 150 o drigolion lleol ardal Aberdâr at ei gilydd ddiwedd Medi i gymryd rhan yn ein gorymdaith Machlud Haf. Roedd hwn yn ddiwedd glo un o'n prosiectau cymunedol lleol gyda phlant Ysgol Gymraeg Abercynon, Ysgol Eglwys yng Nghymru Tref Aberdâr a'r Sgowntiaid lleol, gyda Citrus Arts a Beyond the Border, ym Mharc Aberdâr.

150 local people from the Aberdare area joined us at the end of September for the highlight of one of our community projects with Ysgol Gymraeg Abercynon, Aberdare Town Church in Wales School, and the local scouts with Citrus Arts and Beyond the Border, in Aberdare Park.

EISTEDDFOD

Pob lwc i Gymru yng Nghwpan y Byd! | Pob lwc to Cymru in the World Cup!



[Agorwch yn y porwr / Open in browser](#)

Diolch i [Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol](#) am gefnogi'r prosiect |
Thanks for the [National Lottery Heritage Fund](#) for supporting the project

*Hawlfraint | Copyright © *2022* *Eisteddfod Genedlaethol Cymru*, Cedwir pob hawl | All rights reserved.*

Cyfeiriad | Address:
eisteddfod.cymru | eisteddfod.wales

[Dad-danysgrifio](#) | [Unsubscribe](#)

[Subscribe](#)

[Past Issues](#)

[Translate](#) ▼
